

Lefel 3

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

a

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Ymarfer a Theori

Cymeradwywyd gan Cymwystereau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Pecyn Asesu



Fersiwn

Ebrill 2019 Fersiwn 1.0

Cynnwys

Cynnwys	3	
1	Cyflwyniad	4
2	Trosolwg asesu	5
3	Briff yr ymgeisydd	6
4	Cyfarwyddiadau aseswyr/rheolwyr	11
5	Grid mapio	20
6	Pennu'r asesiad terfynol	24
7	Gofynion gweinyddu asesiadau cyffredinol	26
Atodiad 1	Ffurflen cofnod arsylwi'r dysgwr	27
Atodiad 2	Ffurflen gynllunio'r ymgeisydd	30
Atodiad 3	Ffurflen gynllunio'r Aseswr	33
Atodiad 4	Ffurflen cofnod arsylwi Ymarfer	35
Atodiad 5	Ffurflen cofnodi cyfarfod cynnydd	36
Atodiad 6	Ffurflen cofnodi trafodaeth broffesiynol	38
Atodiad 7	Cofnod cwblhau asesiad	40
Atodiad 8	Ffurflen adborth	42
Atodiad 9	Datganiad	43

1 Cyflwyniad

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys dogfennaeth asesu'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a'r unedau ymarfer yn y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

Dylai aseswyr a rheolwyr gyfeirio hefyd at **Ganllaw Cyflwyno'r Cymhwyster** sy'n berthnasol i'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a'r Canllawiau Addysgu ar gyfer yr unedau ymarfer yn y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori am wybodaeth a chefnogaeth bellach ynghylch paratoi i ymgymryd ag asesiadau'r cymhwyster hwn.

2 Trosolwg asesu

Dull asesu

Asesir y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a'r unedau ymarfer yn y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn fewnol drwy gyfres o weithgareddau asesu.

- Cyfres o **dasgau strwythuredig** a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynnwys gorfodol, ac i ddarparu fframwaith i gasglu'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr unedau a ddewisir o grwpiau dewisol A a B. Fel rhan o'r tasgau hyn arsylwir ar ymgeiswyr yn cefnogi dysgu a datblygiad plant drwy gwblhau a gwerthuso pedwar arsylwad, cyn cynllunio pedwar gweithgaredd datblygiadol ar wahân a chynnal y gweithgareddau hynny wedyn.
- Bydd **portffolio o dystiolaeth** yn cael ei gadw ochr yn ochr â'r tasgau strwythuredig. Pwrpas y portffolio yw gweithredu fel tystiolaeth ar gyfer unrhyw unedau/deilliannau nad yw'n debygol y byddant yn cael eu gweld yn rhan o'r tasgau strwythuredig nac yn ffurfio rhan o'r drafodaeth. Bydd hyn yn cynnwys elfennau sail sy'n rhan o'r cynnwys gorfodol, lle mae'r dystiolaeth yn fwyaf tebygol o ddod o'r hyn sy'n cael ei arsylwi neu'n ymhlyg mewn ymarfer o ddydd i ddydd. Bydd y portffolio hefyd yn cynnwys tystiolaeth o unedau dewisol grŵp C, lle nad yw tystiolaeth yn gallu cael ei chynhyrchu'n hawdd o'r fframwaith o dasgau.
- Penderfynir ar y dull asesu terfynol drwy werthusiad terfynol gan yr ymgeisydd o'i weithgareddau, ar ffurf **trafodaeth broffesiynol** wedi'i harwain gan yr aseswr. Bydd yn canolbwyntio ar fyfyrddodau a dysgu'r ymgeisydd o hybu a chefnogi chwarae, dysgu a datblygiad plant drwy ei ymarfer.

3 Briff yr ymgeisydd

Dros gyfnod o 10 mis, bydd gofyn i chi arsylwi ar anghenion plant mewn amgylchedd gwaith go iawn. Byddwch chi'n cynllunio ac yn datblygu gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu, datblygiad, chwarae, iechyd a llesiant y plant hynny.

Bydd gofyn i chi gwblhau **pedwar** arsylwad o blant mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Byddwch chi'n defnyddio eich canfyddiadau i werthuso a myfyrio ar ddysgu, datblygiad, chwarae, iechyd a llesiant y plant rydych chi'n eu cefnogi. Yna byddwch chi wedyn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer, datblygu a chynnal **pedwar** cyfle/profiad a fydd yn helpu gyda datblygiad pellach y plentyn/plant yn y meysydd hyn.

Dylai eich arsylwadau a'r cyfleoedd/profiadau a gynlluniwyd gynnwys ystyried datblygiad plant yn y meysydd canlynol:

- Iechyd a llesiant corfforol
- Cyfathrebu, iaith a llythrennedd
- Gwybyddol/deallusol (mathemateg/rhifedd)
- Personol, cymdeithasol, emosïynol ac ymddygiadol.

Dylai eich arsylwadau ddilyn dysgu a datblygiad cyfannol un plentyn dros gyfnod o amser*.

Dylai eich gwaith cynllunio a'ch sylwadau:

- adlewyrchu cwmpas gofynion dysgu a datblygu'r cwricwlwm Blynyddoedd Cynnar cymeradwy
- dilyn unrhyw ganllawiau penodol ar gyfer yr asesiad.

**Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw'n bosibl dilyn cynnydd un plentyn, yna mae'n bosibl arsylwi ar hyd at dri phlentyn.*

Byddai amgylchiadau eithriadol yn cael eu diffinio fel rhai a fyddai'n gallu eich atal rhag cyflawni eich arsylwadau ac asesiadau gydag un plentyn, a fyddai'n gallu cynnwys, er enghraifft, y plentyn yn gadael y lleoliad neu'n sâl a ddim yn gallu mynychu'r lleoliad. Yn yr achosion hyn, gallwch ddewis plentyn gwahanol ar gyfer yr arsylwad, ond rhaid i chi gadw eich holl gofnodion a gwblhawyd eisoes ar gyfer y plentyn cyntaf.

Bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o'r holl unedau felly bydd angen i chi ystyried hyn wrth benderfynu pa blentyn neu blant i'w harsylwi. Dylech drafod y cynllun ar gyfer eich pedwar arsylwad gyda'ch rheolwr ac aseswr.

Bydd gofyn i chi fynd i gyfarfod cynllunio er mwyn trafod a chytuno ar eich cynllun cyfleoedd/profiad (Tasg Ch) gyda'ch rheolwr/aseswr cyn cyflawni Tasgau D-DD.

Noder, bydd eich aseswr yn arsylwi arnoch o leiaf pedair gwaith wrth i chi arwain y broses o gyflwyno eich cyfleoedd/profiadau (Tasg D). Mae'n bosibl y bydd yn gofyn cwestiynau ychwanegol i chi am sut rydych chi wedi gweithredu eich cynlluniau a'ch ymarfer yn rhan o'ch gwerthusiad terfynol (Tasg DD).

Disgwylir i chi hefyd gwblhau log myfyriol yn rheolaidd yn ystod y cyfnod asesu, gan fyfyrio ar eich ymarfer wrth hybu a chefnogi datblygiad plant, ac adnabod a myfyrio ar eich anghenion datblygu eich hun i barhau i wella. Hefyd bydd gofyn i chi gadw portffolio o dystiolaeth yn ystod

y cyfnod asesu. Defnyddir prosesau arferol y gweithle ar gyfer gwneud hyn, gan gynnwys cyfarfodydd cynnydd, a thrwy dystiolaeth gan eich rheolwr neu fentor yn y gweithle. (Tasg A)

Noder, yng nghyd-destun yr asesiad hwn, gall y term cyfleoedd/profiadau ymdrin â chynlluniau a chyfleoedd sy'n llai strwythuredig ac wedi'u harwain gan y plentyn, yn ogystal â chyfleoedd/profiadau strwythuredig mwy ffurfiol.

Bydd eich rheolwr a'ch aseswr yn cynnal cyfarfod pwynt cyswllt cychwynnol gyda chi cyn i chi ddechrau'r tasgau er mwyn:

- Cadarnhau'r broses asesu, a thrafod pa weithgareddau i ymgymryd â nhw
- Trafod yr hyn sy'n cysylltu'r tasgau, gan eich helpu i ddeall sut mae'r asesiad yn seiliedig ar y ffordd mae eich ymarfer yn hybu ac yn cefnogi chwarae, dysgu a datblygiad plant
- Eich cefnogi chi i ystyried y tasgau mewn perthynas â gofynion yr unedau, h.y. sicrhau y bydd y plant rydych chi'n eu dewis yn rhoi digon o dystiolaeth i chi ar gyfer yr unedau gofynnol, a hefyd i drafod cyfleoedd yn y lleoliad ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni, teuluoedd, gofalywr a phobl eraill.
- Cytuno ar amserlen ar gyfer cwblhau gweithgareddau asesu, cadarnhau dyddiadau cwblhau ar gyfer yr arsylwadau, gwerthusiad cyfannol a dyddiad ar gyfer y cyfarfod cynllunio
- Cytuno ar sut bydd eich portffolio o dystiolaeth a log myfyriol yn cael eu rheoli
- Cynllunio cyfres o gyfarfodydd cynnydd lle bydd eich ymarfer dyddiol a'ch myfyrdodau yn cael eu hadolygu, gan helpu i nodi tystiolaeth portffolio
- Cytuno ar sut byddwch chi'n sicrhau cydsyniad a phreifatrwydd, ac yn cadw cyfrinachedd drwy'r broses asesu

Tasg A

- **Cyflawni gweithgareddau dyddiol** sy'n cynnwys y plentyn/plant. Rhaid i chi ddangos sut rydych chi'n defnyddio modelau partneriaeth a chydgyhyrchu wrth hybu datblygiad cyfannol, dysgu, chwarae, iechyd a llesiant plant. Bydd hyn yn cynnwys y ffordd rydych chi'n gweithio gydag eraill drwy gasglu a rhannu gwybodaeth berthnasol a phriodol gyda chydweithwyr, gweithwyr proffesiynol ac eraill sy'n ymwneud â gofal plant gan ddefnyddio dogfennau, prosesau a gweithdrefnau cytûn.
- **Cwblhau eich log myfyriol yn rheolaidd**, gan sicrhau eich bod wedi cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn barod at bob un o'ch cyfarfodydd cynnydd a gynlluniwyd. Efallai y byddwch chi am ddefnyddio hwn i gasglu syniadau ar gyfer y mathau o gyfleoedd/profiadau y gallech chi fod am eu cynllunio, yn seiliedig ar ddatblygiad presennol y plentyn/plant.
- **Cwrdd â'ch rheolwr/aseswr ym mhob un o'r cyfarfodydd cynnydd sydd wedi'i drefnu** i drafod eich cynnydd a'ch datblygiad eich hun, a hefyd i fyfyrion ar gynnydd datblygiadol plant yn y lleoliad.

Amodau asesu

Amodau arferol y gweithle

Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad

- log myfyriol
- portffolio o dystiolaeth i gynnwys - dogfennaeth y gweithle, cofnodion/nodiadau cyfarfodydd cynnydd, tystiolaeth tystion

Tasg B 1-4

Cynllunio, datblygu a chyflawni o leiaf **pedwar** arsylwad o blentyn/plant yn eich lleoliad.

Dylech chi drafod y cynllun ar gyfer eich arsylwadau gyda'ch rheolwr ac aseswr cyn dechrau eich arsylwad cyntaf.

Rhaid i chi gofnodi canfyddiadau **pob** arsylwad mewn modd proffesiynol a sicrhau **nad** ydych yn datgelu pwy yw'r plentyn/plant. Rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol ar bob cofnod arsylwi:

- cofnodion caniatâd
- rhesymeg dros y dulliau arsylwi
- y ffactorau ffisegol, moesegol a chyfreithiol a ystyriwyd
- manylion arsylwadau
- gwybodaeth berthnasol o ffynonellau eraill a ddefnyddiwyd i ddarparu gwybodaeth gefndir (e.e. rhieni, plant, gweithiwr allweddol, aelodau tîm a chydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, cofnodion blaenorol).

Gallwch ddefnyddio eich ffurflen arsylwi eich hun, neu un rydych chi'n gyfarwydd â'i defnyddio yn eich lleoliad ar gyfer y dasg hon. Darparwyd ffurflen cofnod arsylwi dysgwr enghreifftiol (Atodiad 1) a gallech chi ddewis defnyddio hon yn lle.

Amodau asesu

Rhaid i chi gyflawni'r arsylwadau ar eich pen eich hun yn eich lleoliad gwaith. Rhaid i bob cofnod arsylwi gael ei lofnodi a'i ddyddio gan y rheolwr/aseswr. **Nid** oes angen i'ch gwaith ysgrifenedig gael ei gwblhau o dan amodau goruchwylio ond rhaid iddo ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth eich hun o'r arsylwad a'r dulliau asesu, a meysydd datblygu plant heb unrhyw gefnogaeth allanol, h.y. rhaid ei ysgrifennu yn eich geiriau a'ch arddull eich hun. Rhaid i chi hefyd gydnabod unrhyw ffynonellau rydych chi'n eu defnyddio.

Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad

- Cofnod o bedwar arsylwad. Darparwyd ffurflen (Atodiad 1), a gall hon gael ei defnyddio i nodi'r wybodaeth.

Tasg C

Cwblhewch un gwerthusiad cyfannol sy'n ymdrin â'r **pedwar** arsylwad a gwblhawyd yn Nhasg B.

Yn rhan o'ch gwerthusiad cyfannol, dylech chi ystyried:

- Datblygiad y plentyn/plant sy'n cael ei arsylwi wrth i'r arsylwadau fynd yn eu blaen
- Unrhyw gysylltiadau â damcaniaethau a dulliau datblygiad plant a chwarae
- Y ffactorau ffisegol, moesegol a chyfreithiol a ystyriwyd a'u heffaith
- Sut cafodd y wybodaeth berthnasol o ffynonellau eraill ei defnyddio, ac unrhyw fewnwelediadau a ddarparwyd
- Adnabod anghenion a sgiliau unigol ac ychwanegol y plentyn/plant a chefnogi hynny
- Adnabod yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn/plant (eu hoff bethau/eu cas bethau/eu diddordebau) a chefnogi hynny

Os arsylwyd ar fwy nag un plentyn oherwydd amgylchiadau eithriadol, rhaid i'r gwerthusiad adlewyrchu hyn.

Amodau asesu:

Rhaid i chi gyflawni'r gweithgaredd ar eich pen eich hun. **Nid** oes angen i'ch gwerthusiad gael ei gwblhau o dan amodau goruchwyllo ond rhaid iddo ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth eich hun o sut mae arsylwadau ac asesiadau yn cael eu dehongli a pham, heb unrhyw gefnogaeth allanol, h.y. rhaid ei ysgrifennu yn eich geiriau a'ch arddull eich hun. Gallwch chi ddefnyddio deunyddiau neu ffynonellau cyfeirio ar gyfer y dasg hon ond rhaid cydnabod unrhyw ddeunyddiau neu ffynonellau cyfeirio a ddefnyddiwyd.

Beth mae'n rhaid i chi ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:

- Un gwerthusiad o bedwar arsylwad plant, gan gynnwys unrhyw gyfeiriadau o ran y ffynonellau a ddefnyddiwyd.

Tasg Ch

Lluniwch gynllun o gyfleoedd/profiadau ar gyfer camau dysgu a datblygu nesaf y plentyn/plant, yn seiliedig ar ganlyniadau eich gwerthusiad cychwynnol.

Dylai eich cynllun gynnwys o leiaf **pedwar** cyfle/profiad a gyflawnir gennych yn Nhasg D.

Bydd gofyn i chi gyflwyno eich cynllun, a mynychu cyfarfod cynllunio gyda'ch rheolwr a'ch aseswr er mwyn cytuno ar eich cynlluniau cyn cynnal unrhyw gyfleoedd/profiadau.

Gallwch chi ddefnyddio eich ffurflen gynllunio eich hun, neu un rydych yn gyfarwydd â'i defnyddio yn eich lleoliad ar gyfer y dasg hon. Darparwyd ffurflen gynllunio ymgeisydd enghreifftiol (Atodiad 2) a gallech chi ddewis defnyddio hon yn lle.

Amodau asesu

Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle byddwch chi'n cael llonydd

Beth mae'n rhaid i chi ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:

- Cynllun gweithgareddau

Tasg D 1-4

Arwain y broses o weithredu **pedwar** cyfle/profiad a gynlluniwyd. Bydd eich aseswr yn arsylwi arnoch chi ar bob achlysur.

Amodau asesu

Amodau arferol y gweithle

Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad

- Cofnodion gofynnol y gweithle
- Eich cofnodion o'r gweithgaredd (gan gynnwys cofnodion cydsynio)
- Arsylwad yr aseswr

Tasg DD

Cwblhau gwerthusiad o'r gweithgareddau a gyflawnwyd. Asesir hyn drwy drafodaeth broffesiynol â'ch aseswr.

Bydd y gwerthusiad yn seiliedig ar eich adolygiad a'ch myfyrdodau o ganlyniadau'r cyfleoedd/profiadau dan sylw, sut maen nhw wedi helpu'r plentyn/plant i ddysgu a datblygu, yn seiliedig ar ganfyddiadau eich gwerthusiad cyffwrdd, a thrwy nodau eich cynlluniau cychwynnol. Efallai y bydd cwestiynau'n cael eu gofyn hefyd am eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth chi o ddatblygiad plant o ran eich gweithgareddau asesu.

Gallwch chi baratoi nodiadau ymlaen llaw, a gallwch chi ddod â'r rhain gyda chi a chyfeirio atyn nhw yn ystod y drafodaeth.

Amseru

Disgwylir i'r drafodaeth fynd ymlaen am tua 45 munud.

Amodau asesu

Trafodaeth broffesiynol, mewn amodau tawel, lle byddwch chi'n cael llonydd

Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad

- Unrhyw nodiadau paratoi y cyfeirir atyn nhw yn ystod y drafodaeth
- Nodiadau trafod yr aseswr

4 Cyfarwyddiadau aseswyr/rheolwyr

Mae adran ganlynol y ddogfen hon yn amlinellu cyfarwyddiadau rheolwyr ac aseswyr, a'u rolau wrth gynnal yr asesiad hwn. Dylai'r canllawiau hyn gael eu darllen a'u defnyddio ar y cyd ag adran (4) o **Ganllaw Cyflwyno'r Cymhwyster**.

Rolau yn y broses

Mae'r broses asesu yn dibynnu ar y rheolwr a'r aseswr yn sicrhau bod perfformiad yr ymgeisydd yn cael ei asesu mewn ffordd ddilys. Felly, mae'n bwysig bod y rheolwr a'r aseswr wedi nodi a chadarnhau cwmpas eu rolau, a'r hyn sy'n ofynnol o'u rhan nhw, cyn i'r broses asesu ddechrau. Nodir diffiniadau a disgwyliadau rolau'r rheolwr a'r aseswr yn adran 4 o Ganllaw Cyflwyno'r Cymhwyster.

Defnyddio ffurflenni cofnodi

Darparwyd cyfres o ffurflenni cofnodi (gweler yr Atodiadau) i'w defnyddio. Dim ond canllaw yw'r rhain, a gall aseswyr/rheolwyr benderfynu defnyddio eu ffurflenni eu hunain. Os defnyddir ffurflenni personol, rhaid iddyn nhw adlewyrchu/casglu'r un wybodaeth â'r hyn sydd i'w gael yn ffurflenni'r pecyn hwn.

Argymhellir defnyddio'r ffurflenni sydd i'w cael yma ar ffurf electronig fel bod modd ychwanegu atyn nhw fel sy'n briodol. Gall copïau caled fod yn ddefnyddiol fel trosolwg, ond rhagwelir y bydd sawl tudalen ar ôl eu cwblhau, felly mae'n well eu cwblhau'n electronig. Gellir llwytho fersiynau electronig i lawr o wefan y consortïwm.

Cynnal y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf

Y rheolwr fydd yn rhedeg y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf; â chefnogaeth yr aseswr.

Pwrpas y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf fydd:

- cefnogi'r ymgeisydd o ran deall y broses asesu, y gweithgareddau y bydd yn eu cyflawni a'r hyn sy'n angenrheidiol i gwblhau'r asesiad yn llwyddiannus
- cadarnhau'r hyn sy'n cysylltu'r tasgau, gan sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall sut mae'r asesiad yn seiliedig ar y ffordd mae ei ymarfer yn hybu ac yn cefnogi chwarae, dysgu a datblygiad plant
- trafod rôl y rheolwr, y gefnogaeth y bydd yn ei rhoi a rôl cyfarfodydd cynnydd a gynlluniwyd drwy'r cyfnod asesu
- cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd cynnydd a gynlluniwyd (noder, gallai'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal neu eu cynnwys fel rhan o sesiynau goruchwyllo/1:1 a drefnwyd eisoes)
- trafod pwrpas a rôl elfen portffolio'r asesiad, gan gynnwys rôl y log myfyriol, sut mae'n cefnogi'r asesiad cyffredinol, a sut bydd yn cael ei ddatblygu a'i gynnal
- trafod rôl yr aseswr, a sut bydd yr ymgeisydd yn cael ei asesu'n ffurfiol
- cefnogi'r ymgeisydd i ystyried y tasgau mewn perthynas â gofynion yr unedau, h.y. sicrhau y bydd y plant a ddewiswyd yn rhoi digon o dystiolaeth i chi ar gyfer yr unedau gofynnol, a hefyd cyfleoedd yn y lleoliad ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni, teuluoedd, gofalwyr a phobl eraill.
- trafod a chytuno ar amserlenni cychwynnol ar gyfer gweithgareddau asesu, cadarnhau dyddiadau cwblhau ar gyfer yr arsylwadau, gwerthusiad cyfannol a dyddiad ar gyfer y cyfarfod cynllunio
- cytuno ar y cydsyniad sydd i'w gael gan blant a'u rhieni, teuluoedd, a gofalwyr, a ffyrdd o gadw cyfrinachedd yr ymgeisydd drwy'r broses asesu.

Erbyn diwedd y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf, dylai'r ymgeisydd fod mewn sefyllfa i ddeall holl ofynion yr asesiad i'w gwblhau, y gweithgareddau i'w cyflawni ganddo a'r amserlenni cwblhau cychwynnol.

Cefnogi arsylwadau'r ymgeisydd

Dylai'r gwaith o gynllunio arsylwadau'r ymgeisydd o blant yn y lleoliad gael ei gefnogi drwy'r trafodaethau a gynhelir yn y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf. Dylid atgoffa ymgeiswyr o'r angen i gael cydsyniad cyn dechrau arsylwi ar blentyn/plant. Ni ddylai'r ffurflenni arsylwi gynnwys enw'r plentyn yn benodol, ond yn hytrach ei adnabod mewn ffordd sy'n diogelu ei breifatrwydd.

Gofynnir i'r ymgeisydd drafod ei gynllun arsylwi gyda'r rheolwr a'r aseswr cyn cychwyn arni. Mae hyn yn sicrhau bod y plentyn/plant a ddewisir ar gyfer yr arsylwadau yn addas ac ar gael ar eu cyfer.

Amseriadau

Disgwylir i'r ymgeisydd gynnal yr arsylwadau yn ystod 4-5 mis cyntaf y cyfnod asesu. Dylai hyn helpu i nodi elfennau datblygu ar gyfer y plentyn/plant dan sylw. Dylid cytuno ar yr union amserlen gyda'r rheolwr/aseswr yn y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf, neu drwy drafod y cynllun arsylwi gyda'r ymgeisydd.

Cynnal y cyfarfod cynllunio

Yr aseswr fydd yn rhedeg y cyfarfod cynllunio, gyda chefnogaeth y rheolwr.

Pan gyflwynir ffurflen gynllunio'r ymgeisydd, dylai'r rheolwr a'r aseswr fod wedi cynnal adolygiad trylwyr o'r 'ffurflen gynllunio' a gyflwynwyd er mwyn cadarnhau ymarferoldeb y cyfleoedd/profiadau o ran casglu digon o dystiolaeth seiliedig ar ymarfer.

Bwriedir i'r grid Mapio a ddarparwyd helpu aseswyr i ystyried y mathau o gyfleoedd/profiadau a fyddai'n gallu cael eu cyflawni, a sut y gall dystiolaeth ar gyfer gwahanol ganlyniadau ym mhob uned gael ei chynhyrchu ar gyfer pob cyfle/profiad. Fodd bynnag, dim ond canllaw i'ch cefnogi yw'r grid Mapio.

Dylai'r aseswr a'r rheolwr gwrdd cyn y cyfarfod cynllunio i gadarnhau eu bod yn hapus â'r dull a gynigiwyd gan yr ymgeisydd, p'un a oes angen ailystyried unrhyw feysydd allweddol, neu p'un a oes unrhyw feysydd ymarfer allweddol na fyddai'r cyfleoedd/profiadau a gynlluniwyd yn eu dangos.

Darparwyd ffurflen gynllunio aseswr (Atodiad 3) er mwyn eu helpu i fapio cynllun yr ymgeisydd yn erbyn yr unedau/canlyniadau gofynnol, a nodi, cyn y cyfarfod cynllunio, unrhyw fylchau na fyddai dystiolaeth ohonyn nhw efallai drwy'r cyfleoedd/profiadau a gynlluniwyd.

Yn y rhan hon o'r cynllunio, yr aseswr sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyfleoedd/profiadau sydd wedi'u cynllunio a'u hamserlennu yn ddigon eang eu natur ar gyfer cynnwys gofynnol yr unedau – gan sicrhau y bydd modd arsylwi ar ddigon o dystiolaeth seiliedig ar ymarfer i allu arddel barn asesu ddilys. Os yw'n glir na fydd ymdriniaeth o'r deilliannau yn ystod yr arsylwadau, dylai'r aseswr sicrhau bod cynllun ar waith i ddarparu digon o dystiolaeth ar gyfer y meysydd hyn. Gellir gwneud hyn drwy ailystyried neu ailgynllunio rhywfaint ar y cyfleoedd/profiadau a gynlluniwyd, drwy dystiolaeth ychwanegol yn y portffolio, neu, os yw'n seiliedig ar wybodaeth ac yn berthnasol i ddealltwriaeth yr ymgeisydd o ddatblygiad plant, ei chofnodi i'w chynnwys yn y drafodaeth.

Cysylltu tasgau

Mae briff yr ymgeisydd yn nodi y disgwylir i dasgau Ch-D ddefnyddio'r un plentyn/plant ag a ddefnyddiwyd ar gyfer tasgau B-C. Bwriedir i hyn gefnogi cysylltiadau strwythuredig rhwng y ffordd mae'r ymgeisydd wedi nodi datblygiad y plentyn/plant, a sut mae wedi hybu a chefnogi'r datblygiad pellach hwn drwy'r cyfleoedd/profiadau mae wedi'u cynllunio. Sylweddolir, oherwydd hyd y cyfnod asesu, na fydd bob amser yn realistig i'r un plentyn/plant gael eu defnyddio rhwng y tasgau hyn. Os bydd sefyllfa'n codi lle nad yw'n bosibl cefnogi'r un plentyn/plant, dylai'r ymgeisydd allu defnyddio plant ar gyfnod tebyg o ddatblygiad ar gyfer eu cyfleoedd/profiadau a gynlluniwyd ganddynt. Gall hyn ofyn am drafodaeth â'r rheolwr/aseswr er mwyn helpu i adnabod plant eraill.

Pwrpas y cyfarfod cynllunio yw cwrdd â'r ymgeisydd ac:

- adolygu'r cynllun o ran y cyfleoedd/profiadau mae'r ymgeisydd wedi'u cynnig
- cadarnhau ymarferoldeb y cyfleoedd/profiadau, gan gynnwys y gofynion o ran adnoddau a sicrhau y bydd modd cael digon o dystiolaeth seiliedig ar ymarfer at bwrsasau asesu
- sicrhau bod y cynlluniau a'r cyfleoedd/profiadau wedi bodloni'r briff yn ddigonol i gefnogi cynnydd chwarae, dysgu a datblygiad y plentyn/plant
- cytuno ar sut i gael cydsyniad plant, eu rhieni, eu teuluoedd a'u gofalwyr a sut i gadw cyfrinachedd drwy'r broses asesu
- egluro ac amlinellu'r rolau yn y broses
- cymeradwyo ffurflen gynllunio'r ymgeisydd, a chytuno ar amserlen gweithgareddau yn ffurfiol.

Cytuno ar adnoddau

Mae'r tasgau asesu yn gofyn i'r ymgeisydd gyflawni pedwar cyfle/profiad mewn amgylchedd gwaith go iawn – ni chaniateir efelychu yn yr asesiadau hyn. Oherwydd hyn, mae'n bwysig i'r rheolwr/aseswr helpu'r ymgeisydd i gael mynediad at yr adnoddau a'r amgylchedd a fydd yn ei alluogi i gyflawni hyd eithaf ei allu. Yn ystod y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf, dylai disgwyliadau cychwynnol fod wedi'u pennu o ran yr amgylchedd a'r adnoddau sydd ar gael i'r ymgeisydd – felly dylai ei weithgareddau a gynlluniwyd gyfateb i'r hyn sy'n bosibl o fewn y lleoliad.

Cynllunio wrth gefn

Rhagwelir y byddai un cyfarfod cynllunio yn cael ei gynnal er mwyn adolygu a chytuno ar amserlen y pedwar cyfle/profiad i'w cyflawni. Gwnaed hyn er mwyn cefnogi arbedion effeithlonrwydd, a sicrhau llif y cyflawni cyfannol yn ystod yr asesiad. Os nad yw'n bosibl cytuno ar bob cyfle/profiad yn ystod y cyfarfod cynllunio hwn, rhaid i'r aseswr/rheolwr a'r ymgeisydd gytuno ar gyfarfod arall a'i drefnu er mwyn trafod a chytuno ar y gweithgareddau sydd ar ôl i'w cyflawni*.

** Os, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod asesu, na fydd y cyfleoedd/profiadau a gynlluniwyd yn ymarferol mwyach heb eu haddasu'n rhesymol, neu heb weithredu cynlluniau wrth gefn, dylai'r ymgeisydd gyfarfod â'r aseswr/rheolwr i gadarnhau a chytuno ar sut i fwrw ymlaen â'r gweithgareddau sy'n weddill. Gall fod angen ailgynllunio'r cyfle/profiad cychwynnol.*

Cefnogi'r ymgeisydd drwy'r broses asesu

Yn ystod y broses asesu, dylai'r ymgeisydd gael amgylchedd priodol a digon o amser i sicrhau dilysrwydd y gwerthusiad cyfannol (tasg C).

Dylai'r amgylchedd fod yn un tawel yn y gweithle lle gall yr ymgeisydd gael llonydd i weithio. Gan fod y tasgau hyn yn gofyn i'r ymgeisydd roi mewnbwn a myfyrio drosto ei hun, nid oes angen goruchwyliaeth lawn amser arno, ond dylai'r aseswr allu cadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd yw'r hyn a gwblhawyd. Gellir caniatáu i ymgeiswyr gyfeirio at ddeunyddiau neu ffynonellau cyfeirio perthnasol (e.e. modelau damcaniaethau datblygu plant perthnasol), ond rhaid iddyn nhw nodi'n glir unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd yn eu gwerthusiad.

Dylai trafodaethau yn ystod cyfarfodydd cynnydd a gynlluniwyd alluogi'r rheolwr/aseswr i nodi unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd. Os daw pryderon i'r amlwg, dylen nhw gael eu cofnodi at bwrpasau adolygu ac archwilio Sicrhau Ansawdd Allanol. Bydd angen i'r ymgeisydd a'r rheolwr/aseswr lofnodi ffurflen datganiad (Atodiad 9) i gadarnhau dilysrwydd gwaith yr ymgeisydd. Hefyd bydd angen darparu ystafell dawel ar gyfer tasg DD.

Nodyn ar derminoleg cyfarfodydd

Mae'r cyfeiriadau at y cyfarfodydd anlynol wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Gan fod bwriad gwahanol i bob un, crynhoir diffiniad o bob un isod.

Cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf – cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf wedi'i gynnal gyda'r ymgeisydd, drwy gyflwyniad i'r broses asesu.

Cyfarfod cynllunio – cyfarfod cynllunio wedi'i ddiffinio i adolygu cynlluniau'r ymgeisydd a chadarnhau a chytuno ar y gweithgareddau asesu i'w cyflawni.

Cyfarfodydd cynnydd – cyfarfodydd parhaus drwy'r cyfnod asesu er mwyn cefnogi'r ymgeisydd

Sylwadau

Rhaid i'r aseswr gyflawni o leiaf **pedwar** arsylwad a asesir yn ystod y cyfnod asesu, gan arsylwi ar bedwar cyfle/profiad a gynlluniwyd yr ymgeisydd.

Rhaid i aseswyr sicrhau bod diogelwch plant ac ymgeiswyr yn cael blaenoriaeth, a bod gofynion cyfrinachedd a diogelu data yn cael eu bodloni bob amser. Rhaid i'r aseswr sicrhau bod y cydsyniad gofynnol, fel yr amlinellir yn y cyfarfodydd pwynt cyswllt a chynllunio cyntaf, wedi'i gael cyn dechrau ar unrhyw weithgaredd arsylwi.

Bydd yr arsylwad yn gofyn i'r aseswr:

- adolygu cynllun yr ymgeisydd ar gyfer y cyfle/profiad cyn yr arsylwad,
- arsylwi ar y cyfle/profiad wrth ei osod a'i weithredu,
- holi'r ymgeisydd, gan samplu ei wybodaeth er mwyn bod yn siŵr ei bod ar y lefel ofynnol ar gyfer y rôl.

Dylai ffurflen cofnod arsylwi (Atodiad 4) gael ei llenwi ar gyfer pob arsylwad. Dylai'r ffurflenni ar wahân hyn helpu'r aseswr i greu darlun o gysondeb ymarfer yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod asesu, yn enwedig o ran y ffordd mae'n hybu elfennau ymarfer craidd yn gyson. Mae'r ffurflenni cofnodi, ar y cyd â'r tasgau strwythuredig, yn helpu'r aseswr i farnu cymhwysedd heb fod angen cynnal sawl asesiad na gwneud penderfyniadau gronynnog. Mae rhan o'r ffurflen cofnod arsylwi wedi'i neilltuo ar gyfer cofnodi adborth yr ymgeisydd yn dilyn pob arsylwad.

Dylai'r aseswr adolygu'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu gan bob arsylwad yn barhaus. Os na fydd pob arsylwad yn mynd yn ôl y disgwyl ac nad yw'r dystiolaeth ddisgwyliedig wedi'i harsylwi yn y tasgau cychwynnol yr arsylwir arnynt, mae angen ystyried p'un a oes angen cynnal mwy o arsylwadau. Os teimlir bod angen mwy o arsylwi, yna dylai hyn gael ei drafod â'r ymgeisydd a'r rheolwr. Dylid tynnu sylw at y rhesymau dros yr asesu ychwanegol a chadarnhau'r trefniadau angenrheidiol.

Portffolio o dystiolaeth

Bydd portffolio o dystiolaeth yn cael ei gadw i nodi tystiolaeth nad yw'r tasgau strwythuredig yn ymdrin â hi. Gall hyn gynnwys unedau unigol lle nad oes unrhyw ddeilliannau dysgu'n cael eu

harsylwi yn y tasgau, neu elfennau unedau lle nad oes arsylwi digonol ar bob deiliant dysgu yn y tasgau. Bydd yn cael ei ddefnyddio hefyd i hwyluso'r dystiolaeth o elfennau o'r cynnwys gorfodol sydd fwyaf tebygol o gael eu gweld mewn ymarfer dyddiol. Mae'n debygol hefyd y gwelir y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer unedau o Grŵp dewisol C drwy'r portffolio.

Mae'r grid mapio yn dangos y mathau o dystiolaeth i'w chasglu drwy'r portffolio o weithgareddau dyddiol, a'u monitro drwy gyfarfodydd cynnydd. Hefyd mae'n nodi pa dystiolaeth y disgwylir ei chasglu drwy'r tasgau. Ar adegau lle na fu'n bosibl i ddigon o'r dystiolaeth ddisgwylidig ddeillio o'r tasgau ar gyfer unedau/deilliannau penodol, gall fod angen cynnwys tystiolaeth ategol ychwanegol yn y portffolio. Bydd y ffurflen cofnod arsylwi yn dangos hyn (Atodiad 4).

Ar gyfer unrhyw unedau o grŵp Dewisol C lle nad yw'r deilliannau'n cael eu harsylwi'n llawn drwy'r tasgau strwythuredig, dylai'r gofynion tystiolaeth a amlinellir ar gyfer yr uned yn llawlyfr y cymhwyster gael eu defnyddio fel sail i gasglu tystiolaeth ar gyfer y portffolio.

Dylid cadw unrhyw dystiolaeth yn y portffolio yn unol â gofynion cyfrinachedd a chydsynio'r sefydliad/llleoliad, yn ogystal â'r amodau a amlinellir gan y consortiwm. Mae'r amodau hyn i'w gweld yn y Llawlyfr Gweinyddu sydd i'w weld ar wefan y consortiwm. Byddai'n fuddiol i dimau sicrhau ansawdd mewnol gadw cofnod o'r dystiolaeth gan ddefnyddio'r cofnod cwblhau asesiad (Atodiad 7).

Canllawiau ar dystiolaeth dderbyniol ar gyfer portffolio

Yn ogystal ag arsylwi, dylai aseswyr hefyd adnabod cymysgedd priodol o ddulliau asesu eraill o'r rhestr isod. Bwriad y rhain yw cefnogi'r broses o goladu tystiolaeth ar gyfer y meysydd hynny nad ydynt wedi'u harsylwi'r llawn drwy'r tasgau strwythuredig. Dylent hefyd gefnogi datblygiad portffolio'r ymgeisydd.

Yn y rhestr isod nodir yr amrywiaeth o fathau o dystiolaeth sy'n dderbyniol. Ond, dylid seilio unrhyw ystyriaeth o'r math o dystiolaeth yn bennaf ar bwrpas y dystiolaeth a pha mor ddilys ydyw o ran dangos tystiolaeth o allu'r ymgeisydd.

- Gall **tystion arbenigol** arsylwi ymarfer ymgeiswyr a chynnig tystiolaeth tyst arbenigol ar gyfer unedau seiliedig ar gymhwysedd. Am fanylion natur gyffelyb tystiolaeth tyst arbenigol ac arsylwadau aseswyr, ac am ragor o arweiniad, gweler yr adran isod ar rôl tystiolaeth tyst arbenigol.
- **Tystiolaeth tystion.** Dylai gael ei rhoi gan bobl sy'n gallu darparu tystiolaeth sy'n ategu'r ffordd mae ymgeisydd yn perfformio'n ymarferol. Lle ceisir tystiolaeth gan rieni, teuluoedd, neu ofalwyr, dylid sicrhau bod pwrpas y dystiolaeth yn cael ei ddeall ac nad oes unrhyw bwysau i'w rhoi. Gweler yr arweiniad pellach yn yr adran isod ar rôl tystiolaeth tystion.
- **Cynhyrchion gwaith** – gallan nhw fod yn unrhyw beth perthnasol sydd wedi'i gynhyrchu gan yr ymgeisydd ei hun, neu lle maen nhw wedi gwneud cyfraniad sylweddol, sy'n dangos eu bod wedi'u defnyddio a'u cymhwyso yn eu hymarfer.
- **Cyfrifon ymgeisydd / myfyriol** – disgrifir gweithredoedd yr ymgeisydd mewn sefyllfaoedd penodol a/neu maen nhw'n myfyrio ar y rhesymau dros ymarfer yn y ffyrdd a ddewiswyd. Tra bydd yr ymgeisydd yn cadw log myfyriol drwy'r cyfnod asesu, gall cyfrifon myfyriol ychwanegol hefyd ddarparu mwy o dystiolaeth y gall yr ymgeisydd werthuso ei wybodaeth a'i ymarfer yn yr holl weithgareddau sy'n rhan o'r cymhwyster hwn.
- **Cwestiynau** mae aseswyr yn eu gofyn ac ymgeiswyr yn eu hateb i ategu tystiolaeth a gynhyrchir drwy arsylwadau ac unrhyw fath arall o dystiolaeth a ddefnyddir. Efallai y bydd aseswyr yn gallu cael peth gwybodaeth a dealltwriaeth o arsylwi ar ymarfer ymgeiswyr. Gallan nhw ofyn cwestiynau i gadarnhau eu dealltwriaeth a/neu gwmpasu unrhyw feysydd sy'n weddill. Gall cwestiynau gael eu gofyn ar lafar neu'n ysgrifenedig ond, yn y ddau achos, rhaid cadw cofnod o'r cwestiynau a'r ymatebion.

- **Astudiaethau achos** – rhaid iddyn nhw fod yn seiliedig ar ymarfer a phrofiadau gwaith go iawn, a bydd angen iddyn nhw gael eu dilysu gan aseswr os ydyn nhw'n cael eu defnyddio fel tystiolaeth o berfformiad cymwys. Byddai ymarferion damcaniaethol neu efelychu ond yn dderbyniol fel tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth.
- Gall **gwerslyfrau GCC wedi'u cwblhau** a ddefnyddir ar gyfer Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y Blynnydoedd Cynnar a Gofal Plant ddarparu tystiolaeth ategol ar gyfer y portffolio, gan gynnwys elfennau myfyriol a llai strwythuredig, ond sy'n dal i fod yn dystiolaeth tyst wybodus.
- Gellir defnyddio **efelychiadau o asesiadau** lle mae gofynion tystiolaeth unedau unigol yn nodi hynny'n benodol. Os bydd defnydd o efelychu, rhaid i hynny ddigwydd mewn amgylchedd gwaith realistig. Gweler Llawlyfr y Cymhwyster am fanylion pellach.

Defnyddio logiau/cyfrifon myfyriol

Fel rhan o'r asesiad, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gynnal log myfyriol o'i ymarfer yn ystod y cyfnod asesu. Argymhellir cynghori ymgeiswyr ar sut i fanteisio i'r eithaf ar y log hwn fel adnodd myfyriol; nid yn unig fel dyddiadur i nodi naratif lefel uchel o ba weithgareddau a gyflawnwyd ganddyn nhw, ond yn hytrach yn ei ddefnyddio at bwrpasau hunanfyfyrto, dadansoddi beirniadol ac adolygiad manwl o'r hyn a gyflawnwyd ganddyn nhw. Dylent ystyried yr hyn aeth yn dda, neu ddim cystal, a sut maen nhw'n meddwl ac yn teimlo ynghylch datblygu a gwella yn ymarferol.

Anogir rheolwyr i archwilio'r defnydd o wahanol fathau o logiau myfyriol, gan helpu ymgeiswyr i adnabod a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu eu dull o ddysgu orau.

Cynghorir ymgeiswyr i ddiweddarau eu log myfyriol yn rheolaidd er mwyn gallu pennu disgwyliadau yn y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf o ran pa mor aml y dylai'r ymgeisydd ddiweddarau ei log. Disgwylir i ymgeiswyr ddiweddarau eu log i'w rannu ym mhob un o'u cyfarfodydd cynnydd o leiaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig hysbysu ymgeiswyr am werth a phwysigrwydd myfyrio fel proses barhaus, a'u hannog i ddiweddarau eu log drwy'r cyfnod cyn cyfarfodydd cynnydd, yn hytrach na dim ond ar gyfer y cyfarfodydd hynny.

Defnyddio tystiolaeth tystion

Mae tystiolaeth tystion yn dderbyniol fel tystiolaeth yn y portffolio. Ond, rhaid i'r math hwn o dystiolaeth fodloni'r gofynion a amlinellir isod.

Bydd angen i'r aseswr ystyried statws y tyst er mwyn pennu faint o bwys sydd ar ei ddatganiad, a pha dystiolaeth ategol arall allai fod ei hangen er mwyn cadarnhau cymhwysedd.

Gellir barnu statws tystion yn erbyn y meini prawf canlynol:

1. Arbenigwr galwedigaethol yn bodloni gofyniad penodol yn y cymhwyster ar gyfer rôl Tyst Arbenigol;
2. Arbenigwr galwedigaethol ddim yn gyfarwydd â'r safonau;
3. Rhywun nad yw'n arbenigwr yn gyfarwydd â'r safonau;
4. Rhywun nad yw'n arbenigwr ddim yn gyfarwydd â'r safonau.

Yn achos unrhyw dystiolaeth gan dyst sy'n cael ei chynnwys yn y portffolio, dylid nodi'n glir pwy yw'r tyst, a'i statws.

Tystion arbenigol

Oherwydd natur yr asesiadau, a phwysigrwydd arsylwi ar ymarfer er mwyn arddel barn gyfannol, dim ond tystiolaeth tyst arbenigol a fyddai'n gallu cael ei defnyddio:

- i ddarparu tystiolaeth arbenigol yn sgil arsylwi ar ymarfer ar gyfer uned o Grŵp Dewisol C
- os byddai natur sensitif agweddau ar gyfle/profiad a gynhaliwyd fel rhan o'r arsylwadau a gynlluniwyd yn cael ei chyfyngu'n amhriodol gan bresenoldeb yr aseswr, neu os byddai pryderon diogelu yn cyfyngu ar arsylwad aseswr*.

Dylid cytuno â'r aseswr ymlaen llaw yn rhan o'r broses gynllunio a ddylid defnyddio tystiolaeth tyst arbenigol i ddarparu tystiolaeth.

* Noder, wrth gynllunio arsylwadau, rhaid i'r aseswr sicrhau bod pob cyfle/profiad a gynlluniwyd yn ei gwneud yn bosibl i arsylwi ar ddigon o weithgarwch i'w alluogi i arddel barn asesu ddilys.

Mae angen i'r aseswr allu cael digon o dystiolaeth sicr o'i arsylwadau ei hun fel sail i asesiad cadarn o bob tasg.

Lle maen nhw'n cael eu defnyddio, rhaid i dystion arbenigol fodloni'r meini prawf canlynol:

- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr unedau y byddant yn rhoi tystiolaeth ar eu cyfer
- yn alwedigaethol gymwys yn eu maes arbenigedd i'r un lefel o leiaf â'r uned y byddant yn rhoi tystiolaeth ar ei chyfer
- yn meddu ar unrhyw gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle neu fod wedi gweithio mewn swydd broffesiynol a oedd yn cynnwys gwerthuso ymarfer bob dydd staff

Lle mae tystiolaeth tyst arbenigol yn cael ei defnyddio i roi tystiolaeth o gymhwysedd, rhaid i'r dystiolaeth honno ymwneud yn uniongyrchol â chyflawniad yr ymgeisydd yn y sefydliad/lleoliad y mae'r tyst wedi'i arsylwi'n uniongyrchol. Rhaid cofnodi unrhyw arsylwadau gan dystion arbenigol, a chadw'r dystiolaeth honno'n rhan o'r portffolio. Mae angen i'r aseswr ddilysu'r holl arsylwadau gan dystion arbenigol a ddefnyddiwyd yn rhan o'r broses asesu.

Tystion nad ydynt yn arbenigwyr

Dim ond fel tystiolaeth ategol yn y portffolio y gellir defnyddio tystiolaeth ychwanegol tyst 'nad yw'n arbenigol' (gan unigolion â statws 2, 3 neu 4).

Nid oes angen i dystion nad ydynt yn arbenigwyr feddu ar gymhwyster asesu, oherwydd yr aseswr fydd yn gwneud y penderfyniad(au) asesu terfynol ynghylch pa mor dderbyniol (dilysrwydd, awthentigedd a digonolrwydd) yw'r holl dystiolaeth yn y portffolio.

Paratoi ar gyfer y drafodaeth broffesiynol

Y gweithgaredd asesu terfynol y mae angen ei gwblhau gan yr ymgeisydd yw trafodaeth broffesiynol â'r aseswr. Cynlluniwyd yr elfen hon o'r asesiad i gefnogi'r ymgeisydd wrth iddo werthuso a myfyrio ar ei weithgareddau asesu, ac yn arbennig sut mae wedi rhoi ei wybodaeth am chwarae, dysgu a datblygiad plant ar waith yn y tasgau.

Drwy'r drafodaeth broffesiynol dylai'r aseswr allu cadarnhau unrhyw fylchau yn y dystiolaeth, neu fagu hyder ychwanegol, yn enwedig ynghylch unrhyw agweddau ar wybodaeth nad ydyn nhw efallai wedi'u gweld yn llawn wrth arsylwi ar yr ymarfer.

Strwythur yr asesiad

Cyn yr asesiad, dylai'r aseswr ystyried y brif thema a meysydd pwnc y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio arnyn nhw. Dylai hyn ystyried y gweithgareddau asesu a gyflawnwyd gan yr ymgeisydd. Gall fod o fudd i'r aseswr baratoi cyfres o gwestiynau a fydd yn helpu i strwythuro a chefnogi'r drafodaeth broffesiynol. Dylai'r cwestiynau hyn ganolbwyntio ar:

- Gwerthusiad yr ymgeisydd o'i weithgareddau, a'i fyfyrddodau yn eu cylch, e.e.
 - Beth ddigwyddodd

- Beth oedd wedi'i ddisgwyl
- Beth wnaeth ei synnu, neu na ddigwyddodd yn ôl y bwriad yn llawn
- Beth fyddai'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf
- Beth ddysgodd yr ymgeisydd ynghylch y ffordd mae'n gweithio ac yn ymarfer o ran y gweithgareddau a gyflawnwyd
- Gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeisydd o ddatblygiad plant, wedi'i archwilio yng nghydestun y gweithgareddau asesu.

Dylid teilwra'r union gwestiynau i'w gofyn i'r unedau mae'r ymgeisydd yn eu dilyn, yn ogystal â pha wybodaeth a dealltwriaeth a nodwyd eisoes drwy'r gweithgareddau asesu eraill. Dylai'r aseswr gymryd gofal i beidio â bod yn or-benodol yn y cwestiynau mae'n eu gofyn. Gallai hynny gyfyngu ar y drafodaeth broffesiynol. Dylai ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn gallu gofyn cwestiynau pellach i holi mwy wrth i'r drafodaeth ddatblygu.

Darparwyd ffurflen cofnodi trafodaeth broffesiynol (Atodiad 6), a gall aseswyr ddefnyddio Adran 1 o'r ffurflen hon i flaengynllunio, ac yn y drafodaeth ei hun.

Cynnal y drafodaeth broffesiynol Amgylchedd asesu

Ar ddiwrnod yr asesiad, bydd yr aseswr yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw asesiad yn cael ei gynnal mewn amgylchedd priodol lle nad oes unrhyw amharu na thorri ar draws. Efallai y bydd angen i'r aseswr gysylltu â'r rheolwr er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd asesu yn cael ei gynnal. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod cyfeiriadau priodol a threfniadau eraill ar waith a fydd yn cynnal amgylchedd addas tra bo'r gweithgaredd asesu yn mynd rhagddo.

Cyflwyno'r drafodaeth

Mae'n bwysig bod yr aseswr yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i dawelu meddwl yr ymgeisydd ar ddechrau'r asesiad a chyn dechrau casglu tystiolaeth. Pwrpas hyn yw gallu cynnal asesiad cywir o'r ffordd mae'r ymgeisydd yn cyrraedd y safonau drwy leihau'r graddau y gallai ei nerfau effeithio ar ei berfformiad.

Dylai'r aseswr:

1. Cyflwyno ei hun ac esbonio ei rôl yn y broses.
2. Crynhoi pwrpas a strwythur y drafodaeth.
3. Pwysleisio'r ffaith y bydd yr asesiad yn gwbl gyfrinachol.
4. Gofyn i'r ymgeisydd a oes ganddo unrhyw gwestiynau cyn i'r asesiad ddechrau.

Yn ystod y drafodaeth

Yn ystod y drafodaeth dylai'r aseswr ddefnyddio Adran 2 o'r ffurflen cofnodi trafodaeth broffesiynol (Atodiad 6) i wneud nodiadau sy'n crynhoi prif bwyntiau ymatebion yr ymgeisydd.

Dylai'r drafodaeth deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn galluogi'r ymgeisydd i lywio'r sgwrs. Disgwylir i'r aseswr ddefnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol. Gall y rhain gynnwys:

- Defnyddio cwestiynau dilynol lle bo angen gwneud hynny i holi am fwy o wybodaeth neu i gael eglurhad, e.e. 'Sut oeddech chi'n gwybod hynny?', 'Pa ddull gwnaethoch chi ei ddefnyddio i ddod i'r casgliad hwnnw?'
- Crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau ei fod wedi deall a chofnodi tystiolaeth yr ymgeisydd yn gywir

Amseriadau

Ni ddisgwylir i'r drafodaeth hon bara mwy na 45 munud i gyd.

Cadw tystiolaeth

Mae'r aseswr yn cael recordio'r drafodaeth broffesiynol yn ddigidol er mwyn cefnogi'r broses asesu, e.e. er mwyn ôl-adolygu'r drafodaeth, neu helpu i wneud nodiadau y gall fod yn anodd eu gwneud yn llawn yn ystod y drafodaeth ei hun. Os bydd yr aseswr am recordio'r drafodaeth yn ddigidol, rhaid iddo drafod a chytuno ar hyn gyda'r ymgeisydd cyn dechrau.

Os bydd yr aseswr yn defnyddio cofnod digidol at bwrpasau asesu, mae'n bwysig iddo barhau i gwblhau'r adran sylwadau a chasgliad cyffredinol ar y 'ffurflen cofnodi trafodaeth broffesiynol', a chadarnhau ei fod yn dystiolaeth o'r drafodaeth. Os bydd yr aseswr am ddefnyddio nodiadau a wnaed fel rhan o'r cofnod digidol, rhaid i'w sylwadau a'i gasgliadau cyffredinol gyfeirio at y pwynt yn y cofnod digidol lle nodwyd y dystiolaeth hon. Os bydd unrhyw gyfeiriad at y cofnod digidol ar y ffurflen gofnodi, rhaid i'r cofnod digidol gael ei gadw a'i storio'n ddiogel yn y ganolfan a bod ar gael at bwrpasau sicrhau ansawdd allanol.

5 Grid mapio

Mae'r grid mapio isod wedi'i ddatblygu i helpu i feithrin dealltwriaeth o sut y gellir dangos tystiolaeth o wahanol unedau/deilliannau mewn ffordd realistig ar draws yr amrywiol dasgau asesu. Bydd y dystiolaeth wirioneddol i'w harsylwi yn dibynnu ar sut mae'r gweithgareddau yn cael eu datblygu a'u cyflwyno, ond gall y gwaith mapio hwn helpu'r rheolwr/aseswr, yn ystod y broses gynllunio, i nodi'r meysydd y byddai modd ymdrin â nhw ym mhob cyfle/profiad, yn ogystal â nodi lle y gellid casglu tystiolaeth ychwanegol, os na chafodd ei harsylwi yn ystod yr arsylwadau.

Noder mai dim ond yr unedau canlynol mae'r grid mapio hwn yn ymdrin â nhw

Grŵp gorfodol A (300-303)

Grŵp dewisol A (304-306)

Grŵp dewisol B (307-311)

Noder nad yw'r mapio hwn yn rhestr gynhwysfawr, a dim ond er mwyn helpu i gysylltu unedau a deilliannau y dylai gael ei defnyddio. Bydd gwaith mapio penodol a nodi tystiolaeth benodol yn dibynnu ar y gweithgareddau gwirioneddol a gyflawnir.

Tasg	Enghraifft o'r mathau o weithgareddau a fyddai'n gallu cael eu defnyddio	Meini prawf ymarfer	Meini prawf gwybodaeth	300 Craidd
Tasg A	<i>Cyfarfodydd cynnydd i ymdrin â gweithgareddau dyddiol</i>	303 (1.8-1.11)	301 (1.1-1.8, 3.1) 302 (1.1-1.9, 1.12) 303 (1.1-1.7) 304 (1.1-1.6, 2.6) 305 (1.1-1.6, 2.6) 306 (1.1-1.6) 307 (1.1-1.8) 308 (3.1-3.11) 309 (1.1-1.2, 2.1-2.10, 3.5-3.7) 310 (1.1-1.5, 3.1-3.2) 311 (1.1-1.14, 2.2-2.4, 3.1, 3.5, 4.1-4.4, 5.1-5.2)	300 (2.5-2.7, 3.4-3.6, 4.1-4.2, 5.3-5.8)
Tasg	Enghraifft o'r mathau o weithgareddau a fyddai'n gallu cael eu defnyddio	Meini prawf ymarfer	Meini prawf gwybodaeth	300 Craidd

Tag B (Arsylwadau)	<i>Arsylwi ar blentyn/plant mewn lleoliad</i>	301 (2.13) 305 (2.9) 306 (4.6-4.7) 309 (3.9-3.10) 311 (2.14)	301 (2.1-2.3) 304 (2.1-2.4) 305 (2.1-2.4) 306 (2.1-2.4, 4.5) 309 (2.3, 2.7-2.10, 3.1-3.2, 4.1) 311 (2.5)	300 (2.1)
Tag C (Gwerthuso)	<i>Gwerthusiad cyfannol o arsylwadau o blentyn/plant</i>	301 (2.15) 306 (2.10, 4.8) 309 (3.9, 3.11) 311 (2.14-2.15)	301 (2.2) 304 (2.4, 2.7) 305 (2.4, 2.7) 306 (2.4, 2.7, 4.2, 4.4-4.5) 307 (2.3-2.4) 308 (5.5-5.6) 309 (3.3-3.4) 310 (2.1-2.3, 2.5-2.6) 311 (1.10-1.11, 2.6-2.7, 3.1, 3.5)	300 (1.10)
Tag Ch (Cynllunio)	<i>Cefnogi'r gwaith o gynllunio gweithgareddau a'r amgylchedd dysgu sy'n nodi'r anghenion ac yn cefnogi datblygiad plant</i>	301 (2.14, 2.16) 304 (3.7) 305 (3.5) 306 (3.4, 4.8-4.11) 307 (2.9-2.11) 308 (4.4, 4.11-4.12) 309 (2.11-2.12, 3.9, 3.11) 311 (1.15, 2.14-2.15, 4.6)	301 (2.4-2.12) 302 (1.10-1.12) 304 (2.5, 2.7-2.8, 3.1-3.2) 305 (2.5, 2.7-2.8, 3.1-3.2) 306 (2.5, 2.7-2.8, 3.1-3.3, 4.3) 307 (1.3, 1.5, 1.7, 2.2, 2.4-2.6) 308 (4.1-4.3) 309 (3.8) 310 (2.1-2.4) 311 (2.1, 2.8, 2.10, 2.12, 3.2-3.4, 3.6)	300 (2.2-2.6, 5.1)

Tasg	Enghraifft o'r mathau o weithgareddau a fyddai'n gallu cael eu defnyddio	Meini prawf ymarfer	Meini prawf gwybodaeth	300 Craidd
Tasg D (Arsylwadau)	Cefnogi cyfleoedd/profiadau sy'n cael eu harwain gan blant; cynnwys y plentyn, adnabod llwyddiant ac ati	301 (1.9, 2.16-2.18) 302 (1.18, 1.22) 304 (2.9) 306 (2.9, 4.11-4.13) 307 (2.8-2.17) 309 (2.11-2.12, 3.12-3.15) 310 (1.6-1.7, 2.7-2.10) 311 (1.15-1.17, 3.7-3.10)	301 (2.12) 304 (2.5, 2.7-2.8) 307 (1.4, 1.7, 2.1, 2.4-2.7)	300 (1.1-1.5, 1.7-1.9, 2.3, 3.1, 3.3, 5.1-5.2)
	Hybu amgylchedd sy'n cefnogi chwarae, twf, dysgu a datblygiad	301 (1.10, 3.3-3.4) 304 (3.9) 305 (3.7) 306 (3.6) 307 (2.18-2.21) 309 (2.11-2.12, 3.13-3.15) 311 (2.16-2.18)	301 (3.2) 311 (2.9)	
	Hybu a chefnogi iechyd a llesiant plant	301 (2.18) 302 (1.13-1.23) 303 (1.8-1.11) 304 (2.9, 3.8-3.12) 305 (3.6-3.10) 306 (3.5-3.8) 310 (1.6-1.7) 311 (3.7-3.10, 4.5-4.7, 5.3)	304 (1.4-1.6, 3.1-3.6) 305 (1.4-1.6, 3.1-3.4) 306 (1.4-1.6, 3.1-3.3) 311 (2.11)	300 (1.1-1.5, 1.7-1.9, 2.3, 2.5, 3.1, 3.3-3.4, 5.1-5.2)
	Cefnogi teuluoedd/gofalwyr/eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad plant	302 (1.21) 307 (2.11, 2.18-2.21) 308 (1.3-1.4, 2.8-2.9, 3.12-3.16, 4.4-4.12, 5.7-5.13) 309 (4.4-4.5) 310 (3.3-3.4)	301 (2.7-2.9) 308 (1.1-1.2, 2.1-2.7, 3.1-3.11, 5.1-5.6) 309 (4.1-4.3) 310 (2.6)	300 (1.6-1.7, 3.2)

Tasg	Enghraifft o'r mathau o weithgareddau a fyddai'n gallu cael eu defnyddio	Meini prawf ymarfer	Meini prawf gwybodaeth	300 Craidd
Tasg Dd (Trafodaeth broffesiynol)		301 (2.15) 304 (2.10) 305 (2.9-2.10) 306 (2.10, 4.13-4.14) 310 (2.11) 311 (2.19, 6.3-6.4)	304 (2.6) 305 (2.6) 306 (2.6) 307 (2.7) 308 (2.7, 3.1-3.11) 311 (2.2-2.4, 2.13, 4.1, 6.1-6.2)	300 (1.10, 2.7, 3.6)

6 Pennu'r asesiad terfynol

Penderfyniadau asesu

Mae cynnwys yr uned wedi'i ddatblygu fel deilliannau dysgu a meini prawf asesu. Fodd bynnag, dylai penderfyniadau asesu gael eu gwneud ar lefel y deilliant dysgu. Dylai'r aseswr ystyried p'un a yw'r broses a'r deilliant wedi cael eu dangos:

- yn briodol i'r plentyn/plant a ddefnyddir yn ystod y cyfle/profiad
- yn unol â disgwyliadau'r sefydliad/lleoliad a'r rôl gwaith
- yn unol â'r egwyddorion craidd (uned 300)
- yn gyson yn ystod y pedwar arsylwad.

Bydd hyn yn rhoi digon o dystiolaeth i'r aseswr fodloni'i hun fod yn yr ymgeisydd yn gymwys o ran y meysydd cynnwys a asesir drwy'r tasgau.

Dylai ffurflenni cofnodi ar wahân gael eu defnyddio ar gyfer pob arsylwad ac i helpu'r aseswr i greu darlun o berfformiad yr ymgeisydd dros y cyfnod.

Mae'r ffurflenni cofnodi yn gofyn i'r aseswr ddarparu datganiad sy'n disgrifio sut mae'r deilliannau wedi'u cyflawni yn unol â'r egwyddorion perthnasol. Bydd perfformiad sy'n dangos ymarfer da yn arbennig yn cael ei gofnodi at bwrpas adborth, a bydd unrhyw feysydd nad oes ymdriniaeth ohonyn nhw'n ôl y disgwyl yn cael eu cofnodi, i'w hystyried yn yr arsylwad nesaf / wrth ddatblygu'r portffolio yn barhaus / yn y drafodaeth broffesiynol derfynol fel sy'n briodol.

Cyflwyno dystiolaeth ar gyfer yr asesiad terfynol

Ar ôl cwblhau tasgau A-D, dylai'r aseswr gadarnhau bod yr holl weithgarwch asesu ymarferol wedi'i gyflawni, gan ddefnyddio'r 'cofnod cwblhau Asesiad' (Atodiad 7). Bydd y portffolio a'r log myfyriol yn cael eu cyflwyno i'w hasesu gan yr aseswr ar ôl i dasgau A-D gael eu cwblhau. Yna, cynhelir trafodaeth broffesiynol gyda'r ymgeisydd (tasg DD) er mwyn rhoi'r cyfle i'r aseswr ofyn unrhyw gwestiynau eraill ar feysydd lle nad yw'n teimlo bod digon o dystiolaeth.

Bydd yr aseswr yn asesu'r holl dystiolaeth o'r holl dasgau er mwyn barnu p'un a oes digon o dystiolaeth i ddyfarnu'r cymhwyster.

Dylai'r gwaith asesu a'r adborth ddigwydd o fewn pythefnos i gyflwyno'r asesiad wedi'i gwblhau.

Os penderfynir nad oes digon o dystiolaeth, ac nad yw'r aseswr yn fodlon bod modd dyfarnu marc llwyddo, dylai drafod y rhesymau dros y deilliant â'r rheolwr a'r ymgeisydd, a dylai nodi y gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno mwy o dystiolaeth.

Ailgyflwyno

Os bydd angen i ymgeisydd gyflwyno mwy o dystiolaeth, rhaid i'r ganolfan ddarparu adborth a chefnogaeth briodol er mwyn ei alluogi i wneud hynny. Os na fydd ymgeisydd yn cyflawni'r deilliannau dysgu priodol wrth ailgyflwyno dystiolaeth wedyn, dylai'r ganolfan wneud y canlynol:

- naill ai, trefnu cefnogaeth ychwanegol i'r ymgeisydd, neu,
- hysbysu'r ymgeisydd am ei hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r ymgeisydd.

7 Gofynion gweinyddu asesiadau cyffredinol

Iechyd a diogelwch

Rhan hanfodol o holl gymwysterau ac asesiadau City & Guilds yw bod angen dilyn gweithdrefnau gweithio diogel. Cyfrifoldeb canolfannau yw sicrhau bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch ac ymarferion diogelu ar waith cyn i unrhyw ymgeisydd ddechrau ar asesiadau ymarferol. Pwysigrwydd arferion gweithio diogel, gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a rhaid cadw bob amser at y Codau Ymarfer sy'n gysylltiedig â'r sector.

Os bydd ymgeisydd yn methu â dilyn yr arferion a'r gweithdrefnau cywir o ran iechyd a diogelwch yn ystod yr asesiad ymarferol, rhaid atal yr asesiad a dweud wrth yr ymgeisydd pam mae hynny'n digwydd. Dylid rhoi gwybod i'r ymgeisydd nad yw wedi cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer yr asesiad. Dylai'r aseswr roi gwybod i'r rheolwr am unrhyw achos o dorri iechyd a diogelwch, ac nad yw'r ymgeisydd wedi cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer yr asesiad. Ar ddisgresiwn y ganolfan, gall ymgeiswyr ailsefyll yr asesiad ar ddyddiad diweddarach pan fyddan nhw'n gallu gweithio'n ddiogel. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylid gofyn cyngor gan y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol.

Diogelu

Rhaid i ymgeiswyr weithio mewn ffyrdd sy'n ystyried yn llawn y materion diogelu yn eu hamgylchedd gwaith bob amser. Dylid atgoffa ymgeiswyr o bwysigrwydd ystyried materion diogelu ym mhob gweithgaredd asesu.

Cefnogaeth ac adborth

Gall rheolwyr/aseswyr roi arweiniad i'r ymgeiswyr o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol drwy gefnogi mynediad i'r tasgau. Dylai'r rheolwr/aseswr sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall yr hyn y mae angen ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen darparu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn ei waith ysgrifenedig. Fodd bynnag, dylid sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn cael ei arwain, nac yn cael gwybod beth i'w ddweud, mewn ffordd sy'n ei atal rhag gallu dangos ei broses gwneud penderfyniadau a'i ymarfer ei hun.

Apeliadau

Os bydd apêl yn erbyn penderfyniad asesu, rhaid cyfeirio ymgeisydd at weithdrefn apeliadau mewnol y ganolfan ei hun.

Atodiad 1

Ffurflen cofnod arsylwi'r dysgwr

Ffurflen cofnod arsylwi			
Ymgeisydd		Rhif yr ymgeisydd	
Dyddiad arsylwi			
Rhif(au) adnabod y plentyn			
Math o gyfle/profiad yr arsylwyd arno			
Cynllun arsylwi			
Dull arsylwi i'w ddefnyddio <i>Nodwch pam rydych wedi dewis y dull hwn</i>			
Cafwyd cofnodion caniatâd a'u dogfennu.			
Ystyriwyd ffactorau ffisegol, moesegol a chyfreithiol, a sut mae'r rhain wedi'u dogfennu.			
Unrhyw wybodaeth ychwanegol			
Deilliannau			
<i>Defnyddiwch yr adran hon i nodi'r hyn y gwnaethoch arsylwi arno.</i>			

Defnyddiwch yr adran hon i nodi unrhyw wybodaeth berthnasol a gafwyd o ffynonellau eraill.

Llofnod yr ymgeisydd:		Dyddia d
Cadarnhad o lofnod yr aseswr:		Dyddia d
Cadarnhad o lofnod y rheolwr:		Dyddia d

Atodiad 2 Ffurflen gynllunio'r ymgeisydd

Gwaith cynllunio'r ymgeisydd – ffurflen gryno			
Enw'r ymgeisydd		Rhif yr ymgeisydd	
Dyddiad y cyfarfod cynllunio			
Unedau a ddewiswyd			
Cyfleoedd/profiadau i'w cyflawni			
Cyfle/profiad 1:			
Amserlen y cyfle/profiad			
Nod/targed datblygu'r cyfle/profiad <i>Sut mae bwriad i'r cyfle/profiad gefnogi datblygiad y plentyn/plant, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad cyfannol</i>			
Amlinelliad o'r cyfle/profiad <i>Dylai hwn amlinellu'r cyfle/profiad a gynlluniwyd, beth rydych chi'n bwriadu ei wneud, a pham</i>			
Ystyriaethau eraill sy'n ofynnol <i>e.e. cefnogaeth pobl eraill, adnoddau gofynnol, ystyriaethau amgylcheddol ac ati.</i>			
Gwybodaeth Ychwanegol <i>Gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau wrth gefn posibl fydd eu hangen efallai</i>			

Cyfle/profiad 2:	
Amserlen y cyfle/profiad	
Nod/targed datblygu'r cyfle/profiad <i>Sut mae bwriad i'r cyfle/profiad gefnogi datblygiad y plentyn/plant, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad cyfannol</i>	
Amlinelliad o'r cyfle/profiad <i>Dylai hwn amlinellu'r cyfle/profiad a gynlluniwyd, beth rydych chi'n bwriadu ei wneud, a pham</i>	
Ystyriaethau eraill sy'n ofynnol <i>e.e. cefnogaeth pobl eraill, adnoddau gofynnol, ystyriaethau amgylcheddol ac ati.</i>	
Gwybodaeth Ychwanegol <i>Gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau wrth gefn posibl fydd eu hangen efallai</i>	
Cyfle/profiad 3:	
Amserlen y cyfle/profiad	
Nod/targed datblygu'r cyfle/profiad <i>Sut mae bwriad i'r cyfle/profiad gefnogi datblygiad y plentyn/plant, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad cyfannol</i>	
Amlinelliad o'r cyfle/profiad <i>Dylai hwn amlinellu'r cyfle/profiad a gynlluniwyd, beth rydych chi'n bwriadu ei wneud, a pham</i>	

<p>Ystyriaethau eraill sy'n ofynnol <i>e.e. cefnogaeth pobl eraill, adnoddau gofynnol, ystyriaethau amgylcheddol ac ati.</i></p>	
<p>Gwybodaeth Ychwanegol <i>Gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau wrth gefn posibl fydd eu hangen efallai</i></p>	
<p>Cyfle/profiad 4:</p>	
<p>Amserlen y cyfle/profiad</p>	
<p>Nod/targed datblygu'r cyfle/profiad <i>Sut mae bwriad i'r cyfle/profiad gefnogi datblygiad y plentyn/plant, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad cyfannol</i></p>	
<p>Amlinelliad o'r cyfle/profiad <i>Dylai hwn amlinellu'r cyfle/profiad a gynlluniwyd, beth rydych chi'n bwriadu ei wneud, a pham</i></p>	
<p>Ystyriaethau eraill sy'n ofynnol <i>e.e. cefnogaeth pobl eraill, adnoddau gofynnol, ystyriaethau amgylcheddol ac ati.</i></p>	
<p>Gwybodaeth Ychwanegol <i>Gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau wrth gefn posibl fydd eu hangen efallai</i></p>	
<p>Llofnod yr ymgeisydd:</p>	Dyddiad
<p>Cadarnhad o lofnod yr aseswr:</p>	Dyddiad
<p>Cadarnhad o lofnod y rheolwr:</p>	Dyddiad

Atodiad 3 Ffurflen gynllunio'r Aseswr

Gwaith cynllunio'r aseswr – ffurflen gryno			
Enw'r ymgeisydd		Rhif cofrestru	
Dyddiad y cyfarfod cynllunio			
Unedau i ymdrin â nhw			
Cyfleoedd/profiadau i'w cyflawni			
Cyfle/profiad 1:			
Amserlen y cyfle/profiad			
Defnyddiwch yr adran hon i wneud nodiadau ar y mathau o sgiliau y gall ymgeisydd eu dangos yn y cyfle/profiad hwn			
Deilliannau dysgu y disgwylir eu gweld o'r cyfle/profiad			
Cwestiynau ychwanegol y gall fod angen ystyried eu gofyn i'r ymgeisydd			
Cyfle/profiad 2:			
Amserlen y cyfle/profiad			
Defnyddiwch yr adran hon i wneud nodiadau ar y mathau o sgiliau y gall ymgeisydd eu dangos yn y cyfle/profiad hwn			
Deilliannau dysgu y disgwylir eu gweld o'r cyfle/profiad			
Cwestiynau ychwanegol y gall fod angen ystyried eu gofyn i'r ymgeisydd			

Cyfle/profiad 3	
Amserlen y cyfle/profiad	
Defnyddiwch yr adran hon i wneud nodiadau ar y mathau o sgiliau y gall ymgeisydd eu dangos yn y cyfle/profiad hwn	
Deilliannau dysgu y disgwylir eu gweld o'r cyfle/profiad	
Cwestiynau ychwanegol y gall fod angen ystyried eu gofyn i'r ymgeisydd	
Cyfle/profiad 4	
Amserlen y cyfle/profiad	
Defnyddiwch yr adran hon i wneud nodiadau ar y mathau o sgiliau y gall ymgeisydd eu dangos yn y cyfle/profiad hwn	
Deilliannau dysgu y disgwylir eu gweld o'r cyfle/profiad	
Cwestiynau ychwanegol y gall fod angen ystyried eu gofyn i'r ymgeisydd	
<p>Defnyddiwch yr adran hon i wneud nodiadau ar unrhyw ddeilliannau seiliedig ar ymarfer nad yw'n debygol y byddan nhw'n cael eu harsylwi drwy ymarfer.</p> <p><i>Defnyddiwch yr adran hon i gadarnhau cynllun i ddangos y deilliannau hyn, neu i adolygu ymhellach y cyfleoedd/profiadau a gynlluniwyd</i></p>	

Cofnod arsylwi			
Enw'r ymgeisydd		Rhif cofrestru	
Rhif/dyddiad arsylwi			
Cyfle/profiad yr arsylwyd arno			
Deilliannau dysgu y mae disgwyl arsylwi arnynt			
Arsylwadau a wnaed (Tanlinellwch sut mae'r arsylwadau yn adlewyrchu'r deilliannau dysgu/unedau a gyflawnir)			
Tystiolaeth o Gefnogi Ymarfer Craidd Amlinellwch unrhyw enghreifftiau neu dystiolaeth benodol lle mae'r ymgeisydd wedi dangos ei fod yn hybu'r egwyddorion, ymddygiadau a gwerthoedd o Uned 300.			
Cwestiynau dilynol a ofynnwyd (Rhestrwch y cwestiynau a ddefnyddiwyd i holi'r ymgeisydd ymhellach)			
Deilliannau dysgu heb eu dangos			
Adborth i'r ymgeisydd Defnyddiwch yr adran hon i nodi unrhyw adborth i'w roi i'r ymgeisydd yn dilyn yr arsylwad hwn			
Llofnod yr ymgeisydd:		Dyddiad	
Cadarnhad o lofnod yr aseswr		Dyddiad	

Adborth a roddwyd

Tanlinellwch unrhyw adborth cefnogol/datblygiadol a roddwyd i'r ymgeisydd yn ystod y sesiwn hon

Cwestiynau dilynol a ofynnwyd <i>(Rhestrwch y cwestiynau a ddefnyddiwyd i holi'r ymgeisydd ymhellach, ac amlinellwch ei ymateb yn fras)</i>		
Deilliannau dysgu a ddangoswyd		
Llofnod yr ymgeisydd:		Dyddiad
Cadarnhad o lofnod y rheolwr:		Dyddiad

Atodiad 6 Ffurflen cofnodi trafodaeth broffesiynol

Enw'r ymgeisydd	Teitl	Rhif Ymgeisydd	
Enw'r aseswr	Enw'r aseswr	Dyddiad asesu	DD/MM/BB

Adran 1

Rhowch fanylion isod fydd yn cefnogi strwythur y drafodaeth, e.e.

- Prif destun/themâu i ymdrin â nhw yn ystod y drafodaeth
- Mathau o gwestiynau i'w gofyn fydd yn helpu i ddangos gwybodaeth/dealltwriaeth yr ymgeisydd

Adran 2

Nodiadau a wnaed yn ystod y drafodaeth

Sylwadau cyffredinol a chasgliadau

Cadarnhaf fod y dystiolaeth a roddir yma yn gyfrif cywir o'r asesiad a gynhaliwyd.

Llofnod yr aseswr	Llofnod	Dyddiad	DD/MM/BB
Llofnod yr ymgeisydd	Llofnod	Dyddiad	DD/MM/BB

Atodiad 7 Cofnod cwblhau asesiad

Tasg	Tystiolaeth	Cyfeirnod cofnod tystiolaeth	Deilliannau dysgu a gadarnhawyd	Nodiadau	Adborth i'r ymgeisydd
A	Log myfyriol				
	Portffolio o dystiolaeth				
	<i>Tystiolaeth 1</i>				
	<i>Tystiolaeth 2</i>				
	<i>Tystiolaeth 3</i>				
B1	Arsylwad 1				
B2	Arsylwad 2				
B3	Arsylwad 3				
B4	Arsylwad 4				
C	Gwerthusiad cyfannol				
CH1-CH4	Ffurflen Gynllunio'r Ymgeisydd				

Tasg	Tystiolaeth	Cyfeirnod cofnod tystiolaeth	Deilliannau dysgu a gadarnhawyd	Nodiadau	Adborth i'r ymgeisydd
D1	<i>Tystiolaeth yr ymgeisydd</i>				
	<i>Tystiolaeth yr ymgeisydd</i>				
	Arsylwad 1 yr Aseswr				
D2	<i>Tystiolaeth yr ymgeisydd</i>				
	<i>Tystiolaeth yr ymgeisydd</i>				
	Arsylwad 2 yr Aseswr				
D3	<i>Tystiolaeth yr ymgeisydd</i>				
	<i>Tystiolaeth yr ymgeisydd</i>				
	Arsylwad 3 yr Aseswr				
D4	<i>Tystiolaeth yr ymgeisydd</i>				
	<i>Tystiolaeth yr ymgeisydd</i>				
	Arsylwad 4 yr Aseswr				
DD	Ffurflen cofnodi trafodaeth broffesiynol				
	<i>Tystiolaeth yr ymgeisydd</i>				

Atodiad 8 Ffurflen adborth

Teitl / llwybr y cymhwyster:

--

Enw'r ymgeisydd	Rhif yr ymgeisydd
Enw'r aseswr	Dyddiad cyflwyno

Rhif(au) a theitl(au) yr uned

Cyfeirnod y Dystiolaeth	Adborth	Dyddiad targed a chynllun gweithredu ailgyflwyno

Rwy'n cadarnhau bod yr asesiad hwn wedi cael ei gwblhau i'r safon ofynnol a'i fod yn bodloni'r gofynion o ran dilysrwydd, cyfrededd, awthentigedd a digonolrwydd.

Llofnod yr aseswr a'r dyddiad:

Atodiad 9 Datganiad

Datganiad Dilysrwydd

Enw'r ymgeisydd

Rhif yr ymgeisydd

Enw'r ganolfan

Rhif y ganolfan

Ymgeisydd:

Rwy'n cadarnhau mai fy ngwaith i fy hun yw'r holl waith a gyflwynwyd, ac fy mod wedi cydnabod yr holl ffynonellau a ddefnyddiwyd gennyf.

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad

Rheolwr:

Rwy'n cadarnhau y gwnaed yr holl waith o dan amodau a gynlluniwyd i sicrhau dilysrwydd gwaith yr ymgeisydd, ac rwy'n fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r hyn a gynhyrchwyd.

Llofnod y rheolwr

Dyddiad

Aseswr

Rwy'n cadarnhau y gwnaed yr holl waith o dan amodau a gynlluniwyd i sicrhau dilysrwydd gwaith yr ymgeisydd, ac rwy'n fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r hyn a gynhyrchwyd.

Llofnod yr aseswr

Dyddiad

Noder:

Os nad yw'r ymgeisydd a/neu'r rheolwr/aseswr yn gallu cadarnhau dilysrwydd, neu os na fydd wedi gwneud hynny drwy lofnodi'r datganiad hwn, ni fydd y gwaith yn cael ei dderbyn i'w gymedroli. Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi ynghylch dilysrwydd, gellir cysylltu â'r tiwtor/aseswr er mwyn cael cyfiawnhad.